Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Morgan Llwyd
# Ffordd Cefn
# Wrecsam
# LL13 9NG

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol gyfun Gymraeg a gynhelir gan awdurdod lleol Wrecsam ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae ynddi 757 o ddisgyblion, gan gynnwys 143 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg y dref a hefyd o bentrefi ac ardaloedd gwledig o gwmpas Wrecsam.

Daw disgyblion o ardaloedd sy'n gymharol ffyniannus, ac ardaloedd sydd dan anfantais economaidd. Mae 10.4% o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r canran cenedlaethol o 17.7%. Mae bron pob un o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig o ddisgyblion (tua 10% o'r disgyblion ym Mlwyddyn 7 eleni ) yn ymuno â'r ysgol o ysgolion cynradd Saesneg eu cyfrwng, fel rhan o gynllun trochi dwys yn y Gymraeg.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o ystod gallu lawn. Mae tri y cant o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol. Yn ogystal, mae 16% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol, sydd yn is na'r canran cenedlaethol.

Daw 40% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan un neu ddau riant a 60% o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith. Y Gymraeg yw prif iaith addysgu a dysgu ac mae bron pob un disgybl yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae ychydig iawn o'r disgyblion, sydd yn ymuno a'r ysgol o ysgolion cynradd Saesneg, yn astudio Cymraeg fel ail iaith i ddechrau cyn datblygu'r gallu i ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae pob disgybl ym Mlwyddyn 11 yn eistedd arholiad Cymraeg iaith gyntaf..

Mae'r uwch dîm rheoli cyfan yn gymharol newydd yn eu swyddi. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2013. Dechreuodd un dirprwy ei swydd ym Medi 2012, dau bennaeth cynorthwyol yn ystod 2012 ac un pennaeth cynorthwyol ym Medi 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Morgan Llwyd yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,908 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Wrecsam yw £4,908 a'r lleiafswm yw £4,293. Mae Ysgol Morgan Llwyd yn y safle cyntaf o'r naw ysgol uwchradd yn Wrecsam o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol dda oherwydd:

- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau uchel mewn llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4;
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y cynllun trochi yn effeithiol iawn;
- mae disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n well nag ydynt mewn ysgolion cymharol y teulu o ysgolion eraill;
- mae canrannau presenoldeb yn gyson uwch nag ydynt mewn ysgolion tebyg; ac
- mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- rheolaeth yr uwch dim rheoli a'r llywodraethwyr sydd yn pwysleisio cynnydd disgyblion fel prif weithgaredd yr ysgol;
- gweithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant effeithiol;
- mae arweinwyr ar bob lefel yn hyrwyddo ethos cymunedol cynhwysol sydd yn hybu cydweithio effeithiol rhwng disgyblion, staff a rheolwyr;
- mae gan yr ysgol dystiolaeth dda dros amser o weithdrefnau effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth; ac
- mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 3 yn enwedig yn y lefelau uwch a gwella medrau ysgrifennu'r bechgyn

A2 Rhannu arfer dda ar draws yr ysgol i hybu ansawdd a chywirdeb marcio ac asesu, a dilyniant y disgyblion i sylwadau'r athrawon

A3 Lleihau lefel y gwaharddiadau dros dro

A4 Gweithredu ar argymhellion hunanasesu'r ysgol a rhannu'r arfer orau ymhlith yr holl adrannau wrth hyrwyddo rhagoriaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i hyrwyddo safonau uchel o fewn y rhan fwyaf o wersi yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mewn ychydig iawn o wersi, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog. Yn y dosbarth trochi, mae'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol. Maent yn datblygu hyfedredd a hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfnod cymharol fyr. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn ymateb yn frwdfrydig i dasgau heriol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn gallu cyfathrebu'n effeithiol trwy'r Gymraeg a Saesneg. Maent yn ymateb yn feddylgar i gwestiynau athrawon ac yn defnyddio eu medrau trawsieithu yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'u gwaith wrth gyd-drafod ac ymchwilio gyda'u cyfoedion. Mae medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol yn eu galluogi i gael mynediad da i'r cwricwlwm ac yn eu galluogi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau pynciol yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer hybu eu medrau darllen yn gwneud cynnydd priodol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth drwyadl o gonfensiynau gramadegol. Mae llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ymchwilio'n llwyddiannus i ystod o ffynonellau ac yn trefnu eu gwaith yn briodol. Er hyn, mae ysgrifennu ychydig o fechgyn yng nghyfnod allweddol 3 yn wallus gydag enghreifftiau o sillafu anghywir, camddefnydd o brif lythrennau, atalnodi gwan a chyflwyniad aflêr.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dda. Maent yn dangos ystod o ysgrifennu estynedig safonol gan gynnwys gwaith creadigol, cofnodi gwaith ymchwil a datrys problemau. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n gywir ac yn datblygu geirfa briodol gan gynnwys termau gwyddonol a thechnegol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod o fedrau rhif priodol o fewn bron pob gwers yng nghyfnod allweddol 3 a 4, ble mae'n addas. Maent i gyd yn datblygu ymwybyddiaeth dda o dermau mathemategol. Dengys llawer o'r disgyblion bod ganddynt wybodaeth dda am ffeithiau rhif a dulliau cyfrifo. Mae'r mwyafrif yn cymhwyso eu medrau rhifedd i ddatrys problemau heriol yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth dda am siâp, graddfa, maint a lleoliad. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o strategaethau gan gynnwys dulliau pen, dulliau ysgrifenedig ac wrth ddefnyddio cyfrifiannell.

Mae llawer o'r disgyblion yn gallu casglu, trefnu a dadansoddi data yn effeithiol ac yn ymateb yn dda i'r gofynion mathemategol mewn pynciau perthnasol. Maent i gyd yn

defnyddio medrau a chysyniadau mathemategol a ddysgwyd yn y gorffennol yn dda. Mae llawer disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn ystyried cywirdeb eu hatebion rhifiadol ac yn cofnodi'n gywir. Mae cofnod o waith rhif disgyblion yn eu llyfrau yn gynhwysfawr ac o ansawdd da yn y ddau gyfnod allweddol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r disgyblion yn gweithio'n frwdfrydig, yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion, ac yn dangos cymhelliant amlwg.

Yng nghyfnod allweddol 4 ers 2011 mae tueddiad o gynnydd amlwg yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y prif ddangosyddion. Yn 2013, mae perfformiad disgyblion yn y dangosydd sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a, mathemateg yn sylweddol uwch na'r perfformiad disgwyliedig ac mae'r ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol pan roedd yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y dangosydd sydd yn cyfateb i bump neu fwy o gymwysterau TGAU gradd A*-C, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella ers 2012, er bod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn ychwanegu gwerth arwyddocaol ac yn uwch na'r disgwyl mewn bron pob un o'r dangosyddion pwysig. Enillodd y rhan fwyaf o'r disgyblion gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2013 sydd yn gynnydd amlwg ar y flwyddyn flaenorol.

Ers 2010, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn ar ôl Blwyddyn 11. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a chyfartaledd cenedlaethol. Mae canlyniadau cyrsiau galwedigaethol yn gyson dda dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn y prif ddangosyddion wedi cau yn sylweddol ers dros bedair blynedd. Yn 2013, roedd y bwlch yn llai na phob ysgol gymharol o fewn y teulu a Chymru. Mae hyn oherwydd bod perfformiad disgyblion sydd yn cael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn sylweddol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r disgyblion abl a thalentog yn gwneud cynnydd priodol yn ôl eu gallu a'u cymhelliant.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru ers 2010-2011. Yn 2013, mae pob disgybl wedi llwyddo i ennill cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd unigol, a hefyd o'u cyfuno, yn dangos tueddiad o ostyngiad dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2012/2013, mae perfformiad disgyblion o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim yn y chwartel isaf. Mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y lefelau uwch yn amrywio ond yn gyffredinol mae yn is na chanrannau ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3 a 4 wedi amrywio dros y blynyddoedd ond yn gyffredinol mae bechgyn yn tanberfformio yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn ystyried bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion ddealltwriaeth drylwyr o sut i gadw'n iach ac yn heini. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o sut i fwyta'n iach ac mae lefelau uchel o gyfranogiad gan y disgyblion mewn gweithgareddau corfforol.

Mae presenoldeb disgyblion yn dda iawn ac wedi dangos cynnydd dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion o gymharu ag ysgolion tebyg dros y cyfnod hwn. Nid oes yr un disgybl wedi cael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae nifer y gwaharddiadau dros dro wedi gostwng er bod gwaharddiadau o bump neu lai ddiwrnod dros yr un cyfnod yn llawer rhy uchel.

Mae'r cyngor ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol trwy fynegi eu barn ar agweddau ar addysgu, gwisg ysgol ac adnoddau ar gyfer disgyblion. Nid yw lleiafrif y disgyblion yn ddigon ymwybodol o'r datblygiadau hyn bob tro. Mae disgyblion hŷn y cyngor yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol yn rheolaidd ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r trafodaethau trwy adlewyrchu barn disgyblion yr ysgol. Mae llawer o'r disgyblion yn deall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae ganddynt y medrau angenrheidiol i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg neu waith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n cwrdd â gofynion statudol. Mae'n gynhwysfawr, yn gytbwys ac yn adeiladu'n dda ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig amrediad priodol o weithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion, er enghraifft trefnwyd y perfformiad cyntaf erioed o "Guys and Dolls" yn y Gymraeg yn ddiweddar.

Mae'r cwricwlwm yn cael ei gyfoethogi ymhellach trwy gyflwyno'n llwyddiannus gymhwyster Bagloriaeth Cymru i bawb yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn briodol ac yn cyflwyno cyfleoedd defnyddiol i'r disgyblion ennill cymwysterau yn y medrau. Mae bron pob pwnc wedi cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau llythrennedd a rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn eu cynlluniau gwaith, ac mae'r medrau hyn yn cael eu cyflwyno'n effeithiol o fewn y rhan fwyaf o'r gwersi. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Llywodraeth Cymru.

Mae pob adran yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i ddatblygu medrau iaith disgyblion.  Rhoddir sylw da iawn i'r dimensiwn Cymreig.  Addysgir disgyblion am nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru yn effeithiol.

Mae'r trefniadau ar gyfer integreiddio siaradwyr di-Gymraeg i mewn i'r ysgol yn effeithiol iawn.  Bob blwyddyn, mae'r ysgol yn derbyn carfan o ddisgyblion Blwyddyn 7 sydd ag ychydig iawn, neu ddim gwybodaeth o'r iaith Gymraeg.  Maent yn cael eu trwytho yn effeithiol iawn yn y Gymraeg a'u dysgu fel y "Grŵp Trochi".  Ar ôl dwy flynedd neu lai, mae gan yr holl ddisgyblion adnoddau ieithyddol cadarn sydd yn eu galluogi i ymuno â darpariaeth prif lif cyfrwng Cymraeg yr ysgol yn llwyddiannus iawn.  Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r disgyblion hyn i gyd wedi ennill cymwysterau TGAU sy'n gwbl gymharol â'u cyfoedion sydd eisoes wedi derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd y mae'r Gymraeg yn brif iaith yr addysgu ynddynt.  Mae hyn yn nodwedd arwyddocaol ar ddarpariaeth yr ysgol.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn dda ac yn amlwg iawn o fewn pynciau fel gwyddoniaeth, daearyddiaeth ac addysg grefyddol.

**Addysgu:  Da**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cynllunio yn ofalus iawn.  Maent yn trefnu cyfres o weithgareddau ysgogol i'r disgyblion sydd yn datblygu eu dealltwriaeth o'r pwnc yn dda iawn.  Maent yn trefnu eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol ac yn defnyddio amrywiaeth diddorol o adnoddau o ansawdd uchel i gymell disgyblion.  Maent yn talu sylw arbennig i sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cael eu darparu gyda gwaith ysgrifenedig ysgogol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn dechrau eu gwersi gydag esboniad clir o'r hyn y disgwylir i ddisgyblion ei gyflawni.  Mae ganddynt berthynas weithio da iawn â'r disgyblion a disgwyliadau uchel.  Mae hyn yn ennyn hyder y dysgwyr i ymateb yn hyderus i'r tasgau a osodir.  Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Mae pob athro yn fodel iaith dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio cwestiynau'n effeithiol iawn i ymestyn dealltwriaeth disgyblion o'u gwaith.  Mae cyflymder priodol i'r rhan fwyaf o wersi ac mae athrawon yn y gwersi hyn yn hyrwyddo cymhelliant a brwdfrydedd disgyblion yn effeithiol iawn.  Mae'r athrawon yn cefnogi gwaith grŵp ac unigolion yn effeithiol.  Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid oes gan yr athro ddisgwyliadau digon uchel.

Mae disgyblion yn derbyn gwaith cartref yn aml yn ôl gofynion y pwnc, ac amserlen yr ysgol.  Er hyn, mae anghysondeb ar draws yr ysgol yn ansawdd ac amlder y ddarpariaeth.

Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith eu disgyblion yn rheolaidd ac yn ofalus.  Maent yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i'r disgyblion.  Mae hyn yn cynorthwyo'r disgyblion i ddeall pa mor dda yw eu cynnydd a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.  Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae'r

marcio yn llai effeithiol ac nid yw'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn briodol i'r sylwadau trwy gywiro neu ail ddrafftio eu gwaith.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o ddata a sustemau tracio perthnasol i olrhain cynnydd disgyblion unigol ac mae dilyniant priodol gan athrawon i'r deilliannau. Mae adroddiadau'r ysgol o ansawdd cyson ac yn llawn gwybodaeth ac yn cyflwyno dealltwriaeth ddefnyddiol iawn o gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth yr ysgol er mwyn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn gynhwysfawr ac effeithiol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau gwerthfawr i'r disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo disgyblion i fwyta ac yfed yn iach.

Mae'r gofal a chynhaliaeth a ddarperir gan dîm bugeiliol yr ysgol yn effeithiol iawn a chefnogir eu gwaith yn dda gan amryw o asiantaethau allanol. Mae disgyblion yn derbyn cyngor gwerthfawr ar gyfer gwneud dewisiadau. Mae hyn yn eu cefnogi'n briodol wrth iddynt wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Mae'r ysgol yn ymestyn y profiadau o fyd gwaith yn effeithiol drwy gwrs Bagloriaeth Cymru, cyfnodau profiad gwaith a rhaglen o siaradwyr gwadd i gyflwyno profiadau byw i'r disgyblion am yrfaoedd amrywiol.

Mae'r ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysgol unigol priodol ar gael a rhaglenni ymyrraeth effeithiol i dargedu gwelliannau ym medrau sylfaenol y disgyblion hyn. Mae cyswllt cyson gyda rhieni er mwyn ennyn eu cefnogaeth i'r cynlluniau addysgol unigol sydd ar gyfer eu plant. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn derbyn gofal cynhwysfawr ac yn gwneud cynnydd priodol. Mae uned arbenigol o fewn yr ysgol yn cynnig cefnogaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu heithrio o'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn datblygu medrau cymdeithasol a hybu hunanddelwedd y disgyblion sydd dan eu gofal yn dda, er mwyn eu hanwytho yn ôl i brif lif bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn cwrdd â'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn hybu gwerthoedd cadarnhaol yn llwyddiannus. Mae'n gymuned gynhwysol, ofalgar lle mae pob disgybl yn derbyn cyfle cyfartal. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a rhyw yn effeithiol ac mae polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu'n gyson gan y llywodraethwyr er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae adeiladau yr ysgol sy'n cynnwys cyfleusterau chwaraeon, theatr a darlithfa o ansawdd uchel ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol gydag arddangosfeydd deniadol o waith disgyblion sydd

yn cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o safonau a dathlu llwyddiannau yn dda.

Mae llyfrgell yr ysgol yn adnodd gwerthfawr a gwneir defnydd effeithiol ohono gan y disgyblion. Ceir cyfle buddiol i'r disgyblion gyfrannu i waith dyddiol y llyfrgell. Maent yn gwirfoddoli i gynorthwyo gyda thasgau o fewn y llyfrgell. Mae hyn yn brofiad gwaith defnyddiol ac yn hybu eu hymwybyddiaeth o'r llyfrau sydd ar gael o fewn y llyfrgell i hybu eu medrau darllen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rhoi cyfeiriad a blaenoriaethau strategol clir i'r ysgol. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar weledigaeth glir i godi safonau cyflawniad disgyblion a herio tanberfformiad. Gyda'i gilydd, mae'r pennaeth a'r uwch dim rheoli yn creu naws adeiladol lle mae athrawon a disgyblion yn cydweithio'n dda ac yn parchu ei gilydd.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r uwch dim rheoli a rheolwyr canol yn glir a chytbwys. Maent yn deall eu rolau yn dda a chyfraniad pawb at gyflwyno blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio eu hamser yn effeithiol ac yn rhoi pwyslais amlwg ar godi safonau.

Mae gan yr ysgol ddulliau cyfathrebu mewnol effeithiol. Sefydlwyd calendr o gyfarfodydd pwrpasol sy'n sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yr ysgol yn bwrpasol. Mae'r rheolwyr i gyd yn mynd i'r afael â materion craidd yr ysgol, gan gynnwys hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad da a chodi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae cysondeb amlwg yng nghofnodion y cyfarfodydd a'r pwyntiau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfodydd ac mae hyn yn hyrwyddo atebolrwydd unigolion a grwpiau yn effeithiol.

Mae'r uwch dim rheoli yn dadansoddi data perfformiad yn drwyadl ac yn cynnig her a chefnogaeth gref i adrannau sydd yn tanberfformio, i wella. Maent yn defnyddio data perfformiad yn gyson i gymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg ac i osod targedau cynnydd priodol. Mae'r rhan fwyaf o'r rheolwyr canol hefyd yn datblygu eu medrau dadansoddi data yn effeithiol er mwyn datblygu gwybodaeth drylwyr am agweddau i'w datblygu a rhoi arweiniad priodol i'w cyd-athrawon.

Mae systemau rheoli perfformiad priodol ar gyfer pob aelod o'r staff ac maent yn derbyn adolygiad o'u perfformiad yn flynyddol. Sefydlwyd targedau unigol staff ar bum blaenoriaeth strategol yr ysgol a bu'r hyfforddiant a dderbyniwyd, gan unigolion ar dargedau'r adolygiad perfformiad, yn effeithiol.

Mae corff llywodraethol yr ysgol yn cynnwys cydbwysedd o aelodau o gefndiroedd amrywiol sy'n cynrychioli'r gymuned yn effeithiol. Mae cysylltiadau buddiol rhwng y llywodraethwyr a'r mwyafrif o'r adrannau ac mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth drylwyr o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn herio perfformiad yr ysgol yn dda, ac yn cynnig cefnogaeth gref iawn, lle bo'n briodol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn drwyadl yn arbennig wrth hyrwyddo dwyieithrwydd disgyblion. Mae’r ysgol hefyd wedi llwyddo i ddatblygu’r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd a Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn greiddiol i waith yr ysgol a cheir pwyslais clir ar ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol. O ganlyniad, mae adroddiad hunan arfarnu’r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a gonest. Yn gyffredinol, mae’r adroddiad hwn yn cynnig arfarniadau gwerthfawr am gryfderau’r ysgol ac yn adnabod meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol. Mae’n seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Defnyddia’r rheolwyr uwch ystod o ddadansoddiadau data yn effeithiol i fonitro perfformiad yr ysgol ac i osod targedau i sicrhau gwelliant. Yn ogystal, mae’r pennaeth a’r dirprwy yn arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion ym mhob pwnc er mwyn sicrhau dealltwriaeth drwyadl o berfformiad yr ysgol. Defnyddir y canlyniadau i adnabod arfer dda yn yr adrannau ac i herio tanberfformiad yn effeithiol.

Fe wneir defnydd da o farnau disgyblion am ansawdd yr addysgu a’r asesu drwy drafodaethau ystyrlon gyda grwpiau ffocws o bob blwyddyn a’r cyngor ysgol. Ar sail hyn, mae’r ysgol wedi datblygu model defnyddiol sydd yn nodweddu agweddau ar addysgu effeithiol er mwyn eu mabwysiadu o fewn gwersi a hyrwyddo arfer dda yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf yr arweinwyr canol yn hyderus wrth ddadansoddi data ac fe adlewyrchir hyn mewn adroddiadau hunanarfarnu gwerthfawr. Maent yn llwyr ymwybodol o’u hatebolrwydd, ac yn deall yn glir eu rôl ac effaith eu gwaith ar safonau’r ysgol. Golyga hyn fod llawer o adrannau yn llwyddiannus wrth adnabod cryfderau ac ardaloedd i wella. Serch hyn, mewn lleiafrif o hunanarfarniadau adrannol, mae’r arfarniadau ar elfennau fel rheolaeth adran yn fwy amwys ac anghyson.

Mae cynllun gwella’r ysgol yn deillio’n uniongyrchol o'r hunanarfarnu ac yn galluogi’r ysgol i osod blaenoriaethau pendant er mwyn ysgogi gwelliant. Mae’n cyfeirio'n briodol at wella safonau yng nghyfnod allweddol 3, llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol a chodi cyrhaeddiad bechgyn. Mae cynllunio ar gyfer gwella o fewn yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau cyfnod allweddol 4 yn 2013 yn y rhan fwyaf o ddangosyddion pwysig. Er hyn, nid oes digon o fanylder wrth bennu terfynau amser a chostau’r camau gweithredu yng nghynllun gwella’r ysgol ac mewn lleiafrif o'r cynlluniau gwella adrannol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sefydlog ac effeithiol. Mae’r bartneriaeth rhwng yr ysgol a’r ysgolion cynradd partner yn gryf. Mae rhaglen effeithiol i sicrhau dilyniant a pharhad cwricwlaidd yn y pynciau craidd rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. O ganlyniad i’r broses anwytho effeithiol hon, mae'r mwyafrif o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn ymgartrefu’n gyflym yn yr ysgol uwchradd. Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â rhieni.

Sefydlwyd partneriaethau buddiol gyda darparwyr eraill yn yr ardal. Mae'r cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'i phartneriaid yn cyfrannu at ehangu dewisiadau o fewn y cwricwlwm i ddisgyblion 14-19, ehangu opsiynau cyfrwng Cymraeg, ac yn hyrwyddo safonau da. Mae ansawdd y ddarpariaeth alwedigaethol trwy bartneriaeth hefyd yn dda. Sefydlwyd partneriaethau effeithiol gyda phrifysgolion i baratoi disgyblion ar gyfer addysg uwch ac i ddarparu hyfforddiant cychwynnol i hyfforddeion dysgu yn llwyddiannus.

Mae partneriaethau effeithiol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Bydd nifer sylweddol o gyflogwyr ac ysgolion cynradd lleol yn cynnig lleoliad gwaith i ddisgyblion 10 a 11 ac 13 yn flynyddol. Maent yn rhoi cymorth gwerthfawr er mwyn paratoi'r disgyblion ar gyfer byd gwaith, er enghraifft trwy gynnig ffug gyfweliadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol staff sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol i'w cyfrifoldebau ac mae cynorthwywyr dysgu yn darparu cefnogaeth fuddiol.

Mae pwyslais clir ar ddatblygu cyfleoedd priodol i holl staff yr ysgol wella eu harferion proffesiynol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o gydweithio effeithiol tu fewn yr ysgol, ac yn ehangach. Mae hyn yn galluogi athrawon i ddatblygu eu harbenigedd ymhellach. Yn sgil hyn, mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu lwyddiannus.

Mae pob athro yn rhan o rwydweithiau proffesiynol mewnol sydd yn llwyddiannus yn datblygu cysondeb a chodi safonau addysgu. Fe welir effaith y gwaith hwn yn y polisi dysgu ac addysgu newydd sydd bellach yn cael ei weithredu'n gyson effeithiol. Fe geir cyfleoedd gwerthfawr i rannu arferion da yn rheolaidd mewn cyfarfodydd a diwrnodau hyfforddiant mewn swydd. Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau allanol gwerthfawr, yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion eraill a chydweithio defnyddiol gyda'i theulu o ysgolion er mwyn hyrwyddo safonau uchel.

Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli'n effeithiol ac mae argymhellion yr archwiliad mwyaf diweddar wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r ysgol yn arfarnu effaith adnoddau ar ddysgu ac addysgu, ac yn cynllunio'n ofalus ar gyfer y dyfodol. Mae'r pennaeth, y rheolwraig busnes a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol i fonitro gwariant yr ysgol. Mae lleiafrif o ddosbarthiadau yn y chweched dosbarth yn fach, ond mae'r ysgol yn cydweithio gyda darparwyr lleol er mwyn sicrhau cwricwlwm sydd yn gost-effeithiol.

Yn sgil y deilliannau da i'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae safonau yn dda ar y cyfan. Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2010-2011 mae tueddiad o gynnydd amlwg yn y canran o'r disgyblion sydd yn cyflawni yn y prif ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2013 mae perfformiad disgyblion wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf. Er hyn, mae tueddiad o gynnydd yn y canran o'r disgyblion sydd yn cyflawni yn y prif ddangosyddion. Yn 2012-2013, mae perfformiad disgyblion yn y dangosydd trothwy lefel 2 yn cynnwys y Gymraeg neu Saesneg a mathemateg yn sylweddol uwch na'r perfformiad disgwyliedig a fodelwyd ac mae'r ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Mae'r dangosydd pynciau craidd a sgôr pwyntiau wedi ei chapio wedi gwella hefyd ers 2011 ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf yn y teulu yn 2012-2013. Mae perfformiad disgyblion yn y trothwy lefel 1 wedi bod yn gyson dda ac ymhlith 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ers 2011. Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd trothwy lefel 2 yn 2013 wedi gwella, er bod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion o ran prydau ysgol am ddim. O ran gwerth ychwanegol cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion yn dda ac yn gyffredinol well na'r disgwyl.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn y prif ddangosyddion wedi cau yn sylweddol ac yn gyson ers dros bedair blynedd. Mae hyn oherwydd bod perfformiad disgyblion sydd yn cael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn sylweddol. Yn 2012-20013, roedd y bwlch yn llai na phob ysgol gymharol o fewn y teulu a Chymru. Mae disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig a'r disgyblion abl a thalentog yn gwneud cynnydd priodol yn ôl eu gallu a'u cymhelliant.

Ers 2009-2010, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn ar ôl Blwyddyn 11. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae canlyniadau cyrsiau galwedigaethol yn gyson dda dros y tair blynedd diwethaf. Enillodd canran uchel iawn o ddisgyblion y Fagloriaeth ar Lefel 1 neu 2 yn 2013. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru ers 2011. Yn 2013, mae pob disgybl wedi llwyddo i ennill cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi'u cyfuno wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae perfformiad disgyblion o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim yn y chwartel isaf.

Ym mhob pwnc craidd unigol, mae perfformiad disgyblion sydd yn cyrraedd y lefel disgwyliedig (L5+) dros y tair blynedd diwethaf wedi amrywio ond gyda thueddiad o ostyngiad o gymharu â'r teulu o ysgolion. Yn 2012/2013, mae Saesneg a gwyddoniaeth ymhlith y 25% isaf o gymharu â'r teulu o ysgolion ac mae Cymraeg a mathemateg ymhlith yr hanner is o ysgolion tebyg. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch(L6+) yn amrywio ond maent yn gyffredinol is na chanrannau'r teulu.

Mae perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3 a 4 wedi amrywio dros y blynyddoedd. Yn 2013, yng nghyfnod allweddol 3, mae sylweddol mwy o ferched yn ennill lefelau uwch, Lefel 6+ yn darllen ac ysgrifennu yn Saesneg, na'r bechgyn. Yng nghyfnod allweddol 4, mae gwahaniaeth sylweddol yn y Gymraeg a hefyd yn Saesneg ac mae bechgyn yn tanberfformio.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 197 | 51<br>26% | 132<br>67% | 14<br>7% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 43% | 53% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 197 | 11<br>6% | 126<br>64% | 53<br>27% | 7<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 197 | 57<br>29% | 118<br>60% | 18<br>9% | 4<br>2% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 197 | 27<br>14% | 126<br>64% | 35<br>18% | 9<br>5% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 57% | 17% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 196 | 64<br>33% | 92<br>47% | 34<br>17% | 6<br>3% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 8% | 1% | |
| I am doing well at school | 197 | 49<br>25% | 124<br>63% | 21<br>11% | 3<br>2% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 195 | 30<br>15% | 136<br>70% | 27<br>14% | 2<br>1% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 196 | 18<br>9% | 81<br>41% | 75<br>38% | 22<br>11% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 197 | 56<br>28% | 106<br>54% | 28<br>14% | 7<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 197 | 7<br>4% | 84<br>43% | 94<br>48% | 12<br>6% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 197 | 23<br>12% | 82<br>42% | 75<br>38% | 17<br>9% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 28% | 51% | 17% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 194 | 14<br>7% | 102<br>53% | 70<br>36% | 8<br>4% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 197 | 32<br>16% | 135<br>69% | 24<br>12% | 6<br>3% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 195 | 32<br>16% | 120<br>62% | 35<br>18% | 8<br>4% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 8% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 196 | 49<br>25% | 122<br>62% | 20<br>10% | 5<br>3% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 196 | 41<br>21% | 127<br>65% | 21<br>11% | 7<br>4% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 35% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 79 | 13<br>16% | 36<br>46% | 25<br>32% | 5<br>6% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 38 | 2<br>5% | 17<br>45% | 13<br>34% | 6<br>16% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 27% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 44 | 15<br>34% | 25<br>57% | 3<br>7% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 44 | 16<br>36% | 26<br>59% | 2<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 44 | 17<br>39% | 24<br>55% | 3<br>7% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 44 | 17<br>39% | 22<br>50% | 2<br>5% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 44% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 44 | 7<br>16% | 19<br>43% | 7<br>16% | 0<br>0% | 11 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 22% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 44 | 11<br>25% | 26<br>59% | 1<br>2% | 1<br>2% | 5 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 44 | 16<br>36% | 25<br>57% | 2<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 46% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 44 | 7<br>16% | 23<br>52% | 10<br>23% | 0<br>0% | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 43 | 12<br>28% | 18<br>42% | 5<br>12% | 1<br>2% | 7 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 44 | 11<br>25% | 29<br>66% | 4<br>9% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 44 | 16<br>36% | 24<br>55% | 3<br>7% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 40 | 8<br>20% | 19<br>48% | 0<br>0% | 1<br>2% | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 31% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 44 | 10 | 24 | 5 | 2 | 3 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 23% | 55% | 11% | 5% | | |
| | | 33% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 44 | 16 | 21 | 6 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 36% | 48% | 14% | 2% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 44 | 11 | 22 | 2 | 1 | 8 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 25% | 50% | 5% | 2% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 44 | 11 | 27 | 2 | 0 | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 25% | 61% | 5% | 0% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 39 | 8 | 12 | 5 | 1 | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 21% | 31% | 13% | 3% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 43 | 12 | 25 | 4 | 1 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 28% | 58% | 9% | 2% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 42 | 10 | 21 | 2 | 0 | 9 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 24% | 50% | 5% | 0% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Simon Davies | Arolygydd Tîm |
| David Ivor Hughes | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| John David Dyer | Arolygydd Lleyg |
| Ithel Emlyn Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eleri Lewis | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |